***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 No. 1221

# Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Radiograffydd Therapiwtig-Ragnodydd Annibynnol a Deietegydd-Ragnodydd Atodol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2016

**Diwygio Rheoliadau 2007**

**4.**—(1) Mae Rheoliadau 2007 wedi eu diwygio yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 2(1), yn y lleoedd priodol yn nhrefn yr wyddor mewnosoder y diffiniadau a ganlyn—

"ystyr "cofrestr y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal" ("*the Health and Care Professions Council register*") yw'r gofrestr a sefydlwyd ac a gynhelir gan y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal o dan erthygl 5 o Orchymyn Proffesiynau Iechyd a Gwaith Cymdeithasol 2001;";

"ystyr "radiograffydd cofrestredig" ("*registered radiographer*") yw person sydd wedi ei gofrestru yn Rhan 11 o gofrestr y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal;";

"ystyr "radiograffydd therapiwtig-ragnodydd annibynnol" ("*therapeutic radiographer independent prescriber*") yw person—

(a) sy'n radiograffydd cofrestredig, a

(b) y cofnodir yn erbyn ei enw yn y gofrestr berthnasol—

(i) hawl i ddefnyddio'r teitl "radiograffydd therapiwtig"; a

(ii) nodyn yn dynodi ei fod yn gymwys i archebu cyffuriau, meddyginiaethau a chyfarpar fel radiograffydd therapiwtig-ragnodydd annibynnol;".

(3) Yn rheoliad 2(1)—

(a) yn y diffiniad o "rhagnodydd" ("*prescriber*")—

(i) yn is-baragraff (dd) hepgorer "ac";

(ii) yn is-baragraff (e) yn lle "rhagnodydd annibynnol." mewnosoder "rhagnodydd annibynnol; ac";

(iii) ar ôl is-baragraff (e) mewnosoder—

"(f) radiograffydd therapiwtig-ragnodydd annibynnol,";

(b) yn y diffiniad o "cofrestr berthnasol" ("*relevant register*") ar ôl is-baragraff (c)(i) mewnosoder—

"(ia) deietegwyr;";

(c) yn y diffiniad o "rhagnodydd atodol" ("*supplementary prescriber*")—

(i) ar ôl "diagnostig neu therapiwtig,", hepgorer "neu"; a

(ii) ar ôl is-baragraff (a)(iv)(cc) mewnosoder—

"(chch) deietegwyr, neu".